Rhyfeddod y Pasg

O Dduw Byw, moliannwn di am ryfeddod y Pasg - dydd i ddathlu, rhyfeddu a diolch - dydd sy'n newid ein ffordd o weithredu, dydd sy'n newid ein ffordd o fyw, dydd sy'n newid popeth.Gorfoleddwn ym muddugoliaeth Iesu Grist, ei goncwest dros bechod, anobaith a hyd yn oed angen ei hun.Moliannwn di, am na all dim mewn bywyd nac angau ein gwahanu oddi wrth dy gariad di. Amen.

Olaf Davies

O e d f a o n

Ebrill 7, 2024
Penybont 9:45 / Porthcawl 11:15
Gweinidog

Ebrill 14, 2024
Penybont 9:45 / Porthcawl 11:15

Ebrill 21, 2024
Penybont 9:45 / Porthcawl 11:15
Gweinidog

Gofalaeth Glannau Ogwr
glannauogwr.cymru
Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr
4 Derwen Rd, Penybont, CF31 1LH

Tabernacl, Porthcawl
18 Fenton Place, Porthcawl, CF36 3DW

Gweinidog
Parchg Dylan Rhys Parry
4 Heol Cambell, Coity, CF35 6GP
Symudol: 07535904599
Ebost: dylan89rhys@gmail.com

Gofalaeth Glannau Ogwr

Papur Wythnosol Gofalaeth Glannau Ogwr

KOINONIA

Rhifyn 88 Mawrth 31, 2024

Efe a gyfododd yn wir!

Wrth i ni ymgynnull i ddathlu achlysur llawen y Pasg, gadewch inni oedi i fyfyrio ar arwyddocâd y diwrnod hwn. Mae'r Pasg yn amser o adnewyddiad a gorfoledd, wrth i ni gofio atgyfodiad ein Harglwydd a'n Gwaredwr, Iesu Grist.

Yng nghanol treialon a gorthrymderau bywyd, mae'r Pasg yn atgof pwerus o'r gobaith sy'n dod yn dragwyddol. Yn union fel roedd Iesu'n fuddugol dros farwolaeth, felly hefyd y gallwn ddod o hyd i gysur yn yr addewid o brynedigaeth a dechreuadau newydd. Mae atgyfodiad Crist yn cynrychioli'r fuddugoliaeth dros dywyllwch ac anobaith, gan oleuo'r llwybr i fywyd tragwyddol.

Yn y tymor hwn o adnewyddiad, bydded inni gael ein hysbrydoli i gofleidio maddeuant, estyn tosturi, a lledaenu cariad i bawb o'n cwmpas. Gadewch inni feithrin ysbryd o ddiolchgarwch am y bendithion rydym yn ei brofi.

Er ein bod yn profi llawenydd y Pasg heddiw ac yn ymuno gyda Christnogion ar draws y byd drwy weiddi 'Crist a gyfododd' mi wyddom am Gristnogion yn ein byd heddiw fydd yn gweld heddiw yn anodd yn enwedig Cristnogion Gasa a Phalesteina. Gweddïwn am heddwch a chymod y Pasg hwn.

Dewch bawb sy'n dioddef ing a loes
Bawb sy'n deall beth yw poen,
Dewch hefyd chi sy'n llawen iawn,
Rhowch eich diolch nawr i'r Oen.
Digyfnewid yw ei gariad Ef,
A'i drugaredd sy'n ddi-drai.
Yn ffyddlon, bydd holl ddyddiau'n hoes
A'i heddwch yn parhau.

Cyf.Gwenda Jenkins



Y Bedd Gwag – Ioan 20

1 Yn gynnar iawn ar y bore Sul, a hithau'n dal yn dywyll, dyma
Mair Magdalen yn mynd at y bedd a darganfod fod y garreg
fawr oedd ar geg y bedd wedi'i symud. 2 Felly dyma hi'n
rhedeg at Simon Pedr a'r disgybl arall (yr un oedd Iesu'n ei
garu), a dweud wrthyn nhw, "Maen nhw wedi cymryd yr
Arglwydd allan o'r bedd, a dŷn ni ddim yn gwybod ble maen
nhw wedi'i roi e!"
3 Felly dyma Pedr a'r disgybl arall yn mynd allan i fynd at y
bedd. 4 Rhedodd y ddau gyda'i gilydd, ond dyma'r disgybl
arall yn rhedeg yn gynt na Pedr a chyrraedd yno o'i
flaen. 5 Plygodd i edrych i mewn i'r bedd, a gweld y stribedi o
liain yn gorwedd yno, ond aeth e ddim i mewn. 6 Yna dyma
Simon Pedr yn cyrraedd ar ei ôl ac yn mynd yn syth i mewn i'r
bedd. Gwelodd yntau'r stribedi o liain yn gorwedd
yno. 7 Gwelodd hefyd y cadach oedd wedi bod am wyneb
Iesu, ond roedd hwnnw wedi'i blygu a'i osod o'r neilltu ar
wahân i'r stribedi lliain. 8 Yna, yn y diwedd, dyma'r disgybl arall
(oedd wedi cyrraedd y bedd gyntaf) yn mynd i mewn hefyd.
Pan welodd e'r cwbl, credodd. 9(Doedden nhw ddim eto wedi
deall fod yr ysgrifau sanctaidd yn dweud fod rhaid i Iesu ddod
yn ôl yn fyw.)